2.86

"WYT TI'N COFIO?"

Wyt ti'n cofio'r cwymp yn Eden?
Wyt ti'n cofio'r pechod wnaed?
Wyt ti'n cofio Crist yn cefnu
Ar ogoniant ty ei Dad?
Wyt ti'n cofio Gethsemane?
Wyt ti'n cofio'r goron ddrain?
Wyt ti'n cofio'r cwpan chwerw?
Wyt ti'n cofio'r bicell fain?

Wyt ti'n cofio Crist yn gwaedu
Mewn gruddfanau ar y groes?
Wyt ti'n cofio'r lawn digonol
Roddodd yno dan ei loes?
Wyt ti'n cofio'r gair "gorphenwyd?"
"Maddeu iddynt, Dad," medd Ef,
Wyt ti'n cofio'r ffordd agorwyd
O Galfaria fryn i'r nef?

Cofia eto am y diwrnod
Sydd yn dyfod maes o law,
Cofia fe afaela ynot
Oerion ddwylaw brenin braw;
Cyn bo hir dy draed a oera
Yn hen afon angeu du,
Pwy pryd hyny fydd dy gyfaill?
Pwy a'th geidw yn y lli'?

X205205983